# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

# Adran 1: Trosolwg o'r prosiect

## Pa ganlyniadau a fwriedir o'r gwaith hwn?

Sicrhau cyllid digonol ar gyfer rheoleiddio effeithiol ar 15 o broffesiynau iechyd a gofal[1] er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd mewn ymarfer gofal iechyd proffesiynol drwy gynyddu'r ffioedd a godir.

Mae'r model cyllido ar gyfer rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol yn y Deyrnas Unedig yn ddibynnol ar ffioedd y rhai sy'n cofrestru. Ni ddarperir cyllid gan gyflogwyr, y GIG na chyrff iechyd eraill na llywodraethau.

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn a rhaglen ategol i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal er mwyn cael gwybodaeth i lywio'r gwaith hwn. Bydd hynny'n cynnwys ymgynghoriad 12-wythnos ynglŷn â chodi'r ffioedd a godir ar y rhai sy'n cofrestru. Y cynnig yr ymgynghorir yn ei gylch ydy y dylai ffioedd godi tua £20 yn uwch y flwyddyn (£19.62) a hynny'n cael ei gyflwyno fesul cam rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2025. Byddai ffioedd eraill HCPC a delir gan y rhai sydd wedi cofrestru yn codi o'r un gyfran ac ar yr un pryd â'r cynnydd yn y ffi adnewyddu, ym mis Gorffennaf 2023.

## Ar bwy y bydd hyn yn effeithio?

- Y cyhoedd, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chydweithwyr ym maes iechyd a gofal;
- Y rhai sydd wedi cofrestru a'r rhai sydd am gofrestru, gan gynnwys myfyrwyr neu hyfforddeion;
- Darparwyr addysg a hyfforddiant;
- Darparwyr iechyd a gofal, cyrff proffesiynol a grwpiau defnyddwyr; a
- Gweithwyr a phartneriaid HCPC.

# Adran 2: Tystiolaeth ac ymgysylltu

## Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i hystyried tuag at yr asesiad hwn o effaith?

1. Cronfa ddata'r rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC, sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â chyfraddau nodweddion gwarchodedig ar draws poblogaeth y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni ar hyn o bryd.[2]

2. Gwybodaeth am raddfeydd tâl y GIG[3].

3. Gwybodaeth am fylchau cyflog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n cwmpasu: rhyw/rhywedd[4], anabledd[5], ethnigrwydd[6] a chyflogau isel[7].

4. Arolwg o'r rhai sydd wedi cofrestru ynglŷn â'r defnydd o ryddhad treth a gynhaliwyd rhwng 15 a 23 Awst 2022.

Mae trafodaethau mewnol wedi bwydo i mewn i'r cynigion hyn hefyd, gan gynnwys trafodaethau gyda Chyngor HCPC.

1. Mae HCPC yn rheoleiddio 15 proffesiwn: Therapyddion celf, Gwyddonwyr biofeddygol, Ciropodyddion / podiatryddion, Gwyddonwyr clinigol, Dietegwyr, Dosbarthwyr cymhorthion clyw, Therapyddion galwedigaethol, Ymarferwyr adran lawfeddygol, Orthoptyddion, Parafeddygon, Ffisiotherapyddion, Ymarferwyr seicoleg, Prosthetyddion / orthotyddion, Radiograffyddion, Therapyddion iaith a lleferydd.
2. https://www.hcpc-uk.org/resources/reports/2021/diversity-data-report-2021/
3. https://www.nhsemployers.org/articles/pay-scales-202223
4. Gender pay gap in the UK: 2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
5. Disability pay gaps in the UK:2021- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
6. Ethnicity pay gaps:2019 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
7. Low and high pay in the UK:2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Sut rydych chi wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth gasglu neu ddadansoddi'r dystiolaeth hon?

1. Mae cronfa ddata'r rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn cael ei chadw o fewn HCPC, ac mae'n cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan y rhai sydd wedi cofrestru.

2. Casglwyd data ynglŷn â chyflogau gan y GIG, gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus.

3. Cafodd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC eu gwahodd i gwblhau'r arolwg ynglŷn â rhyddhad treth a gafodd ei hyrwyddo ymhlith pawb sydd wedi cofrestru drwy gylchlythyr HCPC i'r rhai sydd wedi cofrestru.

4. Mae'r cynigion wedi eu llywio gan gyfarfodydd cynnar gyda chyrff proffesiynol ac undebau llafur, gyda golwg ar gael gwell dealltwriaeth o'r materion y gallen nhw weld fyddai'n deillio o'r cynigion.

5. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn dros 12 wythnos yn cael ei gynnal. Rydym yn rhagweld mai rhai sydd wedi cofrestru neu fyfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau fydd y rhai sy'n ymateb bennaf, a bydd yr ymgynghoriad yn gofyn iddynt helpu i ddarparu tystiolaeth ychwanegol am eu hymdeimlad ynglŷn ag effeithiau tebygol y codiad yn y ffioedd. Mae'n debyg y bydd yr effeithiau yn ymwneud â'r ymatebwyr eu hunain, y rhai sy'n gweithio gyda nhw, neu'r rhai y maent yn darparu gwasanaethau iddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am wybodaeth ychwanegol ynglŷn ag effeithiau cadarnhaol neu negyddol posib y cynigion hyn ar gydraddoldeb ac am wybodaeth ynglŷn â chamau lliniaru posib ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a nodir.

6. Byddwn yn ceisio adborth ynglŷn â chynigion ein hymgynghoriad gan Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant HCPC. Mae aelodau'r Fforwm yn rhanddeiliaid allanol sydd ag arbenigedd mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â phrofiad byw. Ymhlith yr aelodau, mae rhai sydd wedi cofrestru a gweithwyr proffesiynol cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol. Byddwn yn ceisio adborth hefyd gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

7. Mae'r cynigion wedi'u trafod gyda Chyngor HCPC, sy'n cynnwys aelodau sydd wedi cofrestru a rhai lleyg.

# Adran 3: Dadansoddiad gan y grŵp cydraddoldeb

## Crynodeb

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a rhai negyddol posib i'n cynigion. Mae unrhyw gynnig i gynyddu ein ffi yn debygol o gael mwy o effaith negyddol ar y rhai sydd fwyaf tebygol o fod ar gyflogau is ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru, megis gweithwyr proffesiynol ifanc, y gallai fod yn fwy tebygol eu bod ar ddechrau eu gyrfaoedd, menywod, rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a rhai sydd â mwy nag un o'r nodweddion hyn. Gallai cynigion gyfrannu at benderfyniad gan rywfaint o'r rhai sydd wedi cofrestru i ymadael â'r gweithlu.

Mae'r effaith ar weithwyr ifanc yn cael ei liniaru gan ostyngiad o 50% i raddedigion, sy'n rhywbeth rydyn ni'n bwriadu ei gadw. Mae'r gostyngiad yn lleihau'r gost i fyfyrwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf, am un cylch cofrestru (2 flynedd). Os bydd rhywun sydd newydd raddio yn ymuno â'r gofrestr lai na chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn broffesiynol ganlynol, byddant yn derbyn gweddill y cyfnod yn ddi-dâl hefyd (y 'cyfnod di-dâl').

Ymhlith mesurau eraill i liniaru effaith ariannol y codiad hwn yn y ffi, mae hyrwyddo rhyddhad treth ac ystyried dichonoldeb gwasgaru debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach.

Effaith gadarnhaol ein cynigion i gynyddu'r ffioedd ydy y byddai'n sicrhau dyfodol rheoleiddio gan HCPA, sy'n cyflawni swyddogaeth allweddol yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel ledled y DU. Mae'r pymtheg proffesiwn rydym yn eu rheoleiddio yn darparu ystod o wasanaethau iechyd a gofal i'r holl boblogaeth ac, mae'n bwysig nodi, i bobl y mae mwy o angen gofal arnynt oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, megis pobl anabl sy'n dibynnu ar wasanaethau ffisiotherapi, plant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar wasanaethau seicolegol neu bobl hŷn sy'n dibynnu ar wasanaethau awdioleg.

Byddai lleihau gweithgaredd rheoleiddio HCPC yn cael effaith negyddol ar draws y boblogaeth yn gyffredinol, gan gynnwys y grwpiau hyn, ac ar bobl sydd â mwy nag un nodwedd warchodedig, megis menywod beichiog o rai cymunedau ethnig neu bobl hŷn sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Byddai pobl o'r fath yn cael eu heffeithio'n benodol. Heb gyllid digonol, ni fyddai HCPC, er enghraifft, yn gallu gweithredu mewn modd effeithiol ac amserol pan fyddai materion sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer yn codi. Os nad yw HCPC yn gallu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol, mae diogelwch cleifion yn debygol o gael ei beryglu. Byddai hynny'n debygol o gael effaith negyddol ar y rhai sydd wedi cofrestru, yn ogystal ag ar gleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gallai diffyg cyllid digonol gael effaith negyddol hefyd ar allu HCPC i ystyried anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac i hyrwyddo ac ysgogi cydraddoldeb yn ehangach.

## Oedran

### Rhai sydd wedi cofrestru

Mae'r ifancaf ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod ar ddechrau eu gyrfaoedd ac felly ag incwm is na rhai eraill sydd wedi cofrestru; mae unrhyw gynnig i gynyddu ein ffi yn debygol o gael mwy o effaith ar y rhai sydd ar gyflogau is ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru. Gallai cynnig i gynyddu'r ffioedd gyfrannu at benderfyniadau gan bobl ifanc sydd wedi cofrestru, neu gan bobl hŷn sydd wedi cofrestru a allai fod yn nesu at ymddeol, i ymadael â'r gweithlu iechyd a gofal sy'n cael ei reoleiddio.

Mae'r effaith ar weithwyr ifanc yn cael ei liniaru gan ostyngiad o 50% i raddedigion, sy'n rhywbeth rydyn ni'n bwriadu ei gadw. Mae'r gostyngiad yn lleihau'r gost i fyfyrwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf, am un cylch cofrestru (2 flynedd). Os bydd rhywun sydd newydd raddio yn ymuno â'r gofrestr lai na chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn broffesiynol ganlynol, byddant yn derbyn gweddill y cyfnod yn ddi-dâl hefyd (y 'cyfnod di-dâl').

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y bydd effaith negyddol ar bawb sydd wedi cofrestru os nad yw eu rheoleiddiwr yn cael ei ariannu'n ddigonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol. Yn ogystal â chael effeithiau negyddol ar eu hymarfer ac ar hyder y cyhoedd yn eu proffesiwn yn sgil dirywiad yn niogelwch cleifion, mae rhai sydd wedi cofrestru yn debygol o weld dirywiad mewn lefelau gwasanaeth wrth iddynt ymwneud â'u rheoleiddiwr. Gallai hynny gael effaith anghymesur ar yr hynaf neu'r ifancaf ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru y gall fod angen rhagor o gymorth arnynt wrth ymgysylltu â HCPC, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio prosesau ar-lein ar gyfer y rhai hŷn neu oherwydd bod prosesau yn anghyfarwydd i'r rhai ifanc ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Petai'r codiad yn y ffioedd yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny olygu bod llai o wasanaethau iechyd a gofal ar gael, ac mae hynny'n debygol o gael effaith anghymesur ar oedolion hŷn, pobl ifanc a phlant, ac yn enwedig ar bobl sydd ag anghenion iechyd a gofal cymhleth.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er

mwyn sicrhau rheoleiddio cryf sydd yn gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion. Gallai unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath gael effaith anghymesur ar rai, megis plant neu bobl hŷn, a allai fod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd neu fod yn fwy agored i niwed.

## Anabledd

### Rhai sydd wedi cofrestru

Amcangyfrifir bod y bwlch cyflog anabledd cenedlaethol yn 13%[8] sy'n awgrymu bod pobl anabl ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod ar gyflogau is (er enghraifft, yn gweithio'n rhan-amser), ac felly mae'n fwy tebygol y bydd effaith negyddol arnynt yn sgil y codiad yn y ffioedd.

I'r gwrthwyneb, gallai fod yn fwy tebygol y bydd effaith negyddol ar bobl anabl sydd wedi cofrestru os nad yw eu rheoleiddiwr yn cael ei ariannu'n ddigonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol. Er enghraifft, gall fod angen mwy o gymorth ar bobl sydd wedi cofrestru ac sydd â rhai anableddau er mwyn ymgysylltu â HCPC neu gael mynediad i'n prosesau, felly gallai lleihad yng ngallu HCPC i ddarparu lefelau gwasanaeth da gael effaith negyddol anghymesur ar y bobl hynny o blith y rhai sydd wedi cofrestru.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Petai'r codiad yn y ffioedd yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny olygu bod llai o wasanaethau iechyd a gofal ar gael, ac mae hynny'n debygol o gael effaith anghymesur ar bobl sydd ag anableddau, ac yn enwedig ar bobl sydd ag anghenion iechyd a gofal cymhleth.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau rheoleiddio cryf er mwyn gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion. Mae unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath yn debygol o gael effaith anghymesur ar bobl sydd ag anableddau a allai fod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, o fod ag anghenion mwy cymhleth neu o fod yn fwy agored i niwed.

## Ailbennu rhywedd

### Rhai sydd wedi cofrestru

Gallai'r codiad yn y ffioedd gael effaith negyddol ar bobl sydd wedi cofrestru sydd wrthi'n trawsnewid petai'n lleihau'r cyllid sydd ar gael ganddynt i'w ddefnyddio i ymdopi â'u hanghenion yn ystod y broses, er enghraifft os oes angen iddynt weithio llai o oriau wrth iddynt drawsnewid a derbyn llai o incwm o ganlyniad i hynny.

I'r gwrthwyneb, gallai fod effaith negyddol ar bobl sydd wedi cofrestru sy'n trawsnewid ac y gall fod angen cyngor neu gefnogaeth ychwanegol gan eu rheoleiddiwr arnynt, yn sgil dirywiad yn lefelau gwasanaethau a allai gael ei achosi gan gyllido annigonol.

8. Disability pay gaps in the UK:2021 - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Petai'r codiad yn y ffioedd yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny olygu bod llai o wasanaethau iechyd a gofal ar gael, a gallai hynny gael effaith anghymesur ar bobl sy'n mynd trwy broses ailbennu rhywedd petai'n cael effaith ar y gwasanaethau arbenigol y mae eu hangen arnynt, megis gwasanaethau seicolegol sy'n cefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd a gofal cymhleth.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau rheoleiddio cryf sy'n gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion. Mae unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath yn debygol o gael effaith anghymesur ar y rhai a allai fod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, o fod ag anghenion mwy cymhleth neu o fod yn fwy agored i niwed. Gallai hynny gynnwys y rhai sy'n mynd trwy broses ailbennu rhywedd.

## Priodasau a phartneriaethau sifil

### Rhai sydd wedi cofrestru

Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol mewn perthynas â phobl wedi cofrestru sydd yn briod neu mewn partneriaethau sifil. Rydym yn ceisio adborth ar effeithiau ar gydraddoldeb yn ein hymgynghoriad a byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau a ganfyddir eu hystyried yn ein dadansoddiad a'n hymateb.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Gallai unrhyw leihad o ran faint o wasanaethau iechyd a gofal sydd ar gael effeithio ar gyplau sydd yn ceisio cymorth iechyd a gofal wedi'i reoleiddio yn gysylltiedig â'u perthynas, e.e., gan wasanaethau seicolegol. Fodd bynnag, mae rheoleiddio iechyd a gofal sydd wedi'i gyllido'n ddigonol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y grŵp hwnnw drwy gefnogi ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel a chynnal diogelwch cleifion / defnyddwyr gwasanaethau.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

### Rhai sydd wedi cofrestru

Gallai'r codiad yn y ffioedd gael effaith negyddol ar rai sydd wedi cofrestru sydd yn feichiog neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant, er enghraifft petai angen iddynt weithio llai o oriau a derbyn llai o incwm o ganlyniad i hynny. Maen bosib y byddai pobl o'r fath ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru yn penderfynu gadael y gweithlu a reoleiddir at ddibenion gofal plant, ac yn rhoi'r gorau i dalu eu ffioedd cofrestru. Rydym yn sylweddoli y byddai angen iddynt, petaent yn penderfynu dychwelyd, dalu'r ffi ailymuno, felly gallai cynnydd yn y ffi honno fod yn fwy tebygol o gael effaith arnynt.

I'r gwrthwyneb, gallai fod effaith negyddol ar bobl sydd wedi cofrestru sydd yn feichiog neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant, ac y gall fod angen cyngor neu gefnogaeth ychwanegol gan eu rheoleiddiwr arnynt, yn sgil dirywiad yn lefelau gwasanaethau a allai gael ei achosi gan gyllido annigonol.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Petai'r codiad yn y ffioedd yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny olygu bod llai o wasanaethau iechyd a gofal ar gael, a gallai hynny gael effaith ar y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi menywod beichiog a'r rhai sydd newydd eni plant.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau rheoleiddio cryf sy'n gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath yn debygol o gael effaith anghymesur ar y rhai a allai fod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal, o fod ag anghenion mwy cymhleth neu o fod yn fwy agored i niwed. Gallai hynny gynnwys menywod beichiog a'r rhai sydd wedi geni plant yn ddiweddar.

## Hil

### Rhai sydd wedi cofrestru

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod pobl o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod ar gyflogau is ac felly'n mae'n debygol y byddai mwy o effaith negyddol arnynt yn sgil unrhyw gynnydd yn y ffioedd.[9]

Gallai ymgeiswyr sy'n ymuno â'r gofrestr o dramor fod yn ymuno o wledydd sydd â chyflogau cyfartalog sylweddol is na'r DU. Mae'r grwpiau hyn eisoes yn talu set uwch o gostau sefydlog er mwyn dechrau gweithio yn y DU (e.e., costau System Profi Iaith Saesneg Rhyngwladol (IELTS), costau adleoli, ac ati). Gallai cynnydd yn lefelau'r ffioedd, gan gynnwys ffioedd ymgeisio, gael effaith anghymesur ar y grŵp hwn o bobl sy'n cofrestru felly.

I'r gwrthwyneb, gallai fod effaith negyddol ar ymgeiswyr rhyngwladol y gall fod angen cyngor neu gefnogaeth ychwanegol gan eu rheoleiddiwr arnynt, yn sgil dirywiad yn lefelau gwasanaethau a allai gael ei achosi gan gyllido annigonol.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Petai'r codiad yn y ffioedd yn peri gostyngiad yn niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny gael effaith ar allu'r gwasanaethau i ddiwallu anghenion grwpiau ethnig penodol, er enghraifft, rhai y mae angen cymorth iaith arnynt neu sy'n dymuno cael gofal wedi'i ddarparu mewn modd sy'n ddiwylliannol sensitif, e.e., gyda hebryngwyr.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau rheoleiddio cryf sy'n gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Gallai unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath gael effaith anghymesur ar bobl o rai grwpiau lleiafrifol ethnig y gall fod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt.

9. Ethnicity pay gaps - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

## Crefydd neu gredo

### Rhai sydd wedi cofrestru

Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol amlwg o safbwynt y rhai sydd wedi cofrestru mewn perthynas â chrefydd neu gredo. Rydym yn ceisio adborth ar effeithiau ar gydraddoldeb yn ein hymgynghoriad a byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau a ganfyddir eu hystyried yn ein dadansoddiad a'n hymateb.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol amlwg o safbwynt y cyhoedd yn gyffredinol mewn perthynas â chrefydd neu gredo. Rydym yn ceisio adborth ar effeithiau ar gydraddoldeb yn ein hymgynghoriad a byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau a ganfyddir eu hystyried yn ein dadansoddiad a'n hymateb.

## Rhyw

### Rhai sydd wedi cofrestru

Mae'r bwlch cyflog cenedlaethol rhwng y rhywiau yn 7.8%, sy'n awgrymu bod menywod ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru yn debygol o fod ar gyflogau is (er enghraifft, yn gweithio'n rhan-amser), ac felly byddai mwy o effaith negyddol arnynt yn sgil y codiad yn y ffioedd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos hefyd bod menywod yn fwy tebygol o fod yn ofalwyr (plant, perthnasau, partneriaid sydd ag afiechyd neu anableddau), felly gallai gostyngiad yn eu hincwm gael mwy o effaith hefyd.

Fel y nodwyd uchod (gweler beichiogrwydd a mamolaeth), gallai'r codiad yn y ffioedd gael effaith negyddol ar rai sydd wedi cofrestru sydd yn feichiog neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant, er enghraifft petai angen iddynt weithio llai o oriau a derbyn llai o incwm o ganlyniad i hynny. Maen bosib y byddai pobl o'r fath ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru yn penderfynu gadael y gweithlu a reoleiddir at ddibenion gofal plant, ac yn rhoi'r gorau i dalu eu ffioedd cofrestru. Rydym yn sylweddoli y byddai angen iddynt, petaent yn penderfynu dychwelyd, dalu'r ffi ailymuno, felly gallai cynnydd yn y ffi honno fod yn fwy tebygol o gael effaith arnynt.

I'r gwrthwyneb, gallai fod effaith negyddol ar bobl sydd wedi cofrestru sydd yn feichiog neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant, ac y gall fod angen cyngor neu gefnogaeth ychwanegol gan eu rheoleiddiwr arnynt, yn sgil dirywiad yn lefelau gwasanaethau a allai gael ei achosi gan gyllido annigonol.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Fel y nodwyd yn flaenorol, petai'r codiad yn y ffioedd yn lleihau niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny gael effaith ar y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi menywod yn benodol, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â gofal ffrwythlondeb a mamolaeth, megis gwasanaethau diagnostig, ffisiotherapi a seicoleg.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau rheoleiddio cryf sy'n gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Gallai unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath gael effaith anghymesur ar wasanaethau arbenigol iechyd menywod.

## Cyfeiriadedd rhywiol

### Rhai sydd wedi cofrestru

Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol amlwg o safbwynt y rhai sydd wedi cofrestru mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn ceisio adborth ar effeithiau ar gydraddoldeb yn ein hymgynghoriad a byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau a ganfyddir eu hystyried yn ein dadansoddiad a'n hymateb.

### Y cyhoedd yn gyffredinol

Fel y nodwyd yn flaenorol, petai'r codiad yn y ffioedd yn lleihau niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC yn y gweithlu iechyd a gofal, gallai hynny olygu bod llai o wasanaethau iechyd a gofal ar gael yn gyffredinol, a gallai hynny gael effaith ar y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl o gymunedau LHDTQ+ yn benodol, megis gwasanaethau seicoleg.

I'r gwrthwyneb, mae'n debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau gan eu bod wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau rheoleiddio cryf sy'n gwarchod diogelwch y cyhoedd. Mae'n debygol y byddai effaith negyddol sylweddol ar gleifion a defnyddwyr gwasanaethau pe na byddai eu rheoleiddiwr yn derbyn cyllid digonol i allu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol a gallai hynny arwain at ragor o niwed i gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Gallai unrhyw ganlyniadau negyddol o'r fath gael effaith anghymesur ar wasanaethau LHDTQ+ arbenigol.

## Grwpiau eraill a nodwyd

### Rhai sydd wedi cofrestru

Mae'r rhai sydd wedi cofrestru sydd ar gyflogau is yn grŵp allweddol i'w hystyried, gan mai arnyn nhw y mae'n fwyaf tebygol y bydd effaith negyddol yn sgil codiad yn y ffioedd.

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys pobl sydd wedi cofrestru o'r holl grwpiau uchod, er mai menywod, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, gweithwyr ifanc a'r rhai sy'n gweithio'n rhan amser neu oriau ansefydlog (e.e., oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofal) sydd fwyaf tebygol o fod yn y grŵp hwn ac felly fwyaf tebygol o brofi effeithiau negyddol yn sgil codiad yn y ffioedd.

Fel y nodwyd uchod, mae'r effaith ar weithwyr ifanc, sy'n fwy tebygol o fod ar gyflogau is gan eu bod ar ddechrau eu gyrfa, yn cael ei liniaru gan ostyngiad 50% i raddedigion, ac rydym yn bwriadu cadw'r gostyngiad hwnnw. Mae hyn yn lleihau'r gost i fyfyrwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf, am un cylch cofrestru (2 flynedd). Os bydd rhywun sydd newydd raddio yn ymuno â'r gofrestr lai na chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn broffesiynol ganlynol, byddant yn derbyn gweddill y cyfnod yn ddi-dâl hefyd (y 'cyfnod di-dâl').

Caiff mesurau eraill i liniaru effaith ariannol y codiad hwn yn y ffi eu cynnig yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys hyrwyddo rhyddhad treth a gwasgaru debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach. Gallai'r camau hyn fod o fwyaf o fudd i'r rhai sydd ar gyflogau is.

## Amrywiaeth rhwng y pedair gwlad

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws gwledydd y DU er mwyn ceisio eu hadborth ynglŷn â'n cynigion. Bydd unrhyw faterion a ganfyddir drwy ein proses ymgynghori ac ymgysylltu sy'n benodol i unrhyw un o wledydd y DU yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn cael ymateb.

# Adran 4: Cynllun Iaith Gymraeg

## Sut gallai'r prosiect hwn roi ein hymrwymiadau dan y Cynllun Iaith Gymraeg ar waith?

Gellir darparu ein cynigion yn Gymraeg o dderbyn cais.

# Adran 5: Crynodeb o'r dadansoddiad

## Crynodeb

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a rhai negyddol posib i'n cynigion. Mae unrhyw gynnig i gynyddu ein ffi yn debygol o gael mwy o effaith negyddol ar y rhai sydd fwyaf tebygol o fod ar gyflogau is ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru, megis gweithwyr proffesiynol ifanc, y gallai fod yn fwy tebygol eu bod ar ddechrau eu gyrfaoedd, menywod, rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a rhai sydd â mwy nag un o'r nodweddion hyn. Gallai cynigion gyfrannu hefyd at benderfyniad gan rywfaint o'r rhai sydd wedi cofrestru i adael y gweithlu.

Mae'r effaith ar weithwyr ifanc yn cael ei liniaru gan ostyngiad o 50% i raddedigion, sy'n rhywbeth rydyn ni'n bwriadu ei gadw. Mae hyn yn lleihau'r gost i fyfyrwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf, am un cylch cofrestru (2 flynedd). Os bydd rhywun sydd newydd raddio yn ymuno â'r gofrestr lai na chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn broffesiynol ganlynol, byddant yn derbyn gweddill y cyfnod yn ddi-dâl hefyd (y 'cyfnod di-dâl').

Ymhlith mesurau eraill i liniaru effaith ariannol y codiad hwn yn y ffioedd, mae hyrwyddo rhyddhad treth a gwasgaru debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach.

Effaith gadarnhaol y cynnig hwn, gan gynnwys mewn perthynas ag effeithiau ar gydraddoldeb, ydy y byddai'n sicrhau dyfodol rheoleiddio gan HCPA, sy'n cyflawni swyddogaeth allweddol yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel ledled y DU. Mae'r 15 proffesiwn rydym yn eu rheoleiddio yn darparu ystod o wasanaethau iechyd a gofal i'r holl boblogaeth ac, mae'n bwysig nodi, i bobl y mae mwy o angen gofal arnynt oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, megis pobl anabl sy'n dibynnu ar wasanaethau ffisiotherapi, plant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar wasanaethau seicolegol neu bobl hŷn sy'n dibynnu ar wasanaethau awdioleg.

Byddai lleihau gweithgaredd rheoleiddio HCPC yn cael effaith negyddol ar draws y boblogaeth yn gyffredinol, ac yn benodol ar y grwpiau hyn a nifer o grwpiau eraill, ac ar bobl sydd â mwy nag un nodwedd warchodedig, megis menywod beichiog o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig neu bobl hŷn sy'n byw gydag anabledd neu gyflyrau iechyd hirdymor. Heb gyllid digonol, ni fyddai HCPC, er enghraifft, yn gallu gweithredu mewn modd effeithiol ac amserol pan fyddai materion sy'n ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer yn codi. Os nad yw HCPC yn gallu cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol, mae diogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau yn debygol o gael ei beryglu. Byddai hynny'n cael effaith negyddol ar y rhai sydd wedi cofrestru, yn ogystal ag ar gleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gallai diffyg cyllid digonol gael effaith negyddol hefyd ar allu HCPC i ystyried anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac i hyrwyddo ac ysgogi cydraddoldeb yn ehangach.

# Adran 6: Cynllun gweithredu

Rhowch grynodeb o'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i wella cynllun y prosiect yn seiliedig ar unrhyw fylchau, heriau a chyfleoedd rydych wedi'u canfod drwy'r asesiad hwn.

Dylech gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut byddwch yn monitro unrhyw effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Crynodeb o'r cynllun gweithredu

Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn dros 12 wythnos yn cael ei gynnal ynglŷn â'n cynigion, wedi'i ategu gan waith ymgysylltu â rhanddeiliaid ar yr un pryd. Rydym yn rhagweld mai rhai sydd wedi cofrestru neu fyfyrwyr ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau fydd y rhai sy'n ymateb bennaf, a bydd yr ymgynghoriad yn gofyn iddynt helpu i ddarparu tystiolaeth ychwanegol ynglŷn ag effeithiau tebygol y codiad yn y ffioedd; er enghraifft, ar eu hunain, ar y rhai sy'n gweithio gyda nhw, neu ar y rhai y maent yn darparu gwasanaethau iddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am wybodaeth ychwanegol ynglŷn ag effeithiau negyddol neu gadarnhaol posib y cynigion hyn ar gydraddoldeb ac am wybodaeth ynglŷn â chamau lliniaru posib ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a nodir.

Fel y nodwyd uchod, rydym yn cynnig ac yn gofyn am farn pobl ynglŷn â'r canlynol:

1. Ein cynnig y dylid cadw'r gostyngiad 50% dwy-flynedd i raddedigion

2. Mesurau pellach y gallem eu gweithredu i liniaru effaith ariannol y codiad hwn yn y ffioedd, gan gynnwys:

    a. Hyrwyddo rhyddhad treth, ac

    b. ymchwilio i ddichonoldeb gwasgaru debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach

Yn ychwanegol, byddwn yn ceisio adborth ynglŷn â'r cynigion hyn gan Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant HCPC. Mae aelodau'r Fforwm yn rhanddeiliaid allanol sydd ag arbenigedd mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â phrofiad byw. Ymhlith yr aelodau, mae rhai sydd wedi cofrestru a gweithwyr proffesiynol cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol. Byddwn yn ceisio adborth hefyd gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl adborth ynglŷn â'n hymgynghoriad cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

## Sut bydd y prosiect yn dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth?

Mae cynnal gallu HCPC i fod yn rheoleiddiwr effeithiol yn allweddol er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sydd wedi cofrestru nac aelodau o'r cyhoedd sydd angen ac sy'n derbyn gofal iechyd yn destun gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, naill ai drwy atal neu drwy ein gwaith yn cofrestru ac yn cefnogi y rhai sy'n cofrestru gyda ni a'n pwerau Addasrwydd i Ymarfer.

## Sut bydd y prosiect yn hyrwyddo cyfle cyfartal?

Mae cynnal gallu HCPC i fod yn rheoleiddiwr effeithiol yn allweddol i sicrhau bod y rhai sydd wedi cofrestru yn gallu darparu gwasanaethau gofal iechyd mewn modd cyfartal ac ar sail anghenion cleifion, a bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu derbyn gwasanaethau gofal iechyd effeithiol a phriodol mewn modd amserol.

## Sut bydd y prosiect yn hyrwyddo perthynas dda rhwng grwpiau?

Mae gwaith rheoleiddio HCPC, drwy ein safonau a thrwy i ni hyrwyddo ein safonau, yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhopeth. Mae hynny'n cefnogi perthynas dda rhwng grwpiau.

hcpc health & care professions council | hcpc cyngor proffesiynau iechyd & gofal